



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adroddiad ar Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Ddyfodol Cwrs Golf Llangefni

Caeau Chwarae - Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu

Hydref 2020

Statws: Swyddogol

Paratowyd gan:

Y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ('y Cyngor Sir') yn dymuno ymgysylltu â'r gymuned, defnyddwyr caeau chwarae ac unigolion a phartïon eraill sydd â diddordeb mewn perthynas â bwriad i gael gwared â Chwrs Golff Llangefni. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb cywir i'r darllenydd o'r ffactorau sy'n cael eu hystyried ac sy'n berthnasol i'r broses benderfynu hon a sicrhau bod pob person perthnasol yn cael cyfle i gyflwyno ei farn a gwneud sylwadau a'i gwneud yn bosib i'r Cyngor Sir benderfynu p'un ai bwrw ymlaen i gael gwared ag o ai peidio.
- 1.2 Bydd yr adroddiad yn rhoi cyd-destun hanesyddol, sefyllfa'r Cyngor Sir yn ogystal ag yn amlinellu beth yw'r camau nesaf o ran dyfodol y safle.
- 1.3 Yn unol â rhwymedigaethau'r Cyngor Sir yn unol â Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 a'i ddyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae'r Cyngor Sir wedi cynnal asesiad o'r effaith y gallai'r bwriad i gael gwared â'r cwrs ei chael (mae'r manylion ynghlwm wrth yr Adroddiad hwn) ac mae bellach yn bwriadu cychwyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned leol a grwpiau a phartïon â diddordeb i lywio ymhellach broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

2.0 Cyd-destun Hanesyddol

- 2.1 Agorwyd cwrs golff trefol Llangefni ym 1983 gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, fel ag yr oedd bryd hynny, i ddarparu cyfleuster "talau a chwarae" cost isel ar gyfer golffwyr lefel dechreuwyr a chanolradd. Ar y pryd, nid oedd llawer o unigolion yn medru chwarae ar gyrsiau preifat oherwydd polisïau aelodaeth cyfyngol a ffioedd drud y grŵn.
- 2.2 Yn 2008/09 cafodd yr awdurdod £225,234 o arian grant Chwaraeon Cymru i wella'r cyfleuster. Er mwyn cwblhau'r gwaith angenrheidiol, bu rhaid cau'r cyfleuster. Yn dilyn ailagor y cyfleuster llawn yn 2009/10, bu cynnydd bychan iawn, iawn am gyfnod byr yn ffigurau chwaraewyr y cwrs golff fel cyfleuster annibynnol (dim ond 596). Fodd bynnag, ni pharodd hyn a chredir yn gyffredinol y dechreuodd cwsmeriaid chwarae yn rhywle arall pan gaeodd y cyfleuster ac ni ddaeth pob un ohonynt yn ôl.
- 2.3 Roedd gostyngiad blynyddol o 10,855 (56%) ar gyfartaledd yn y ffigurau chwarae rhwng 2007/2014 a gwelwyd gostyngiad parhaus yn ffigurau chwarae'r cyfleuster a arweiniodd at gynhyrchu £2,667 yn llai o incwm yn 2013/14 na'r hyn a gyflawnwyd cyn cynnwys y llain ymarfer.
- 2.4 Rhwng blynyddoedd 2007 a 2014 roedd y cwrs golff yn gweld **colledion blynyddol o £28,000** ar gyfartaledd - swm yr oedd yn rhaid i'r Cyngor Sir roi cymhorthdal iddo. Nid oedd hyn yn gynaliadwy.
- 2.5 Yn dilyn nifer o ddatganiadau o ddiddordeb, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, ar Fai 26ain 2015, drosglwyddo rheolaeth a chyfrifoldeb rhedeg y cwrs golff i Bartneriaeth Llangefni. Trefniant tymor byr oedd hwn heb unrhyw farchnata ffurfiol i sicrhau bod y cyfleuster yn aros ar agor.
- 2.6 Ar 9 Awst 2017, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y penderfyniad a wnaed gan y Deiliad Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd i ymestyn y brydles i'r Bartneriaeth tan 1 Hydref 2018.

- 2.7 Ar 21 Mai 2018, roedd penderfyniad mewn egwyddor gan y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r bwriad i werthu tir y cwrs golff (tua 40 erw) ond cadw'r llain ymarfer a'r adeiladau cysylltiedig i'w rhedeg ar ran y Cyngor Sir.
- 2.8 Mewn datganiad ar y cyd rhwng y Cyngor Sir a Phartneriaeth Llangefni, cadarnhawyd bod Bwrdd Partneriaeth Llangefni, ar ôl adolygu'r ffeithiau ariannol ac astudiaeth ddichonoldeb annibynnol, wedi penderfynu'n unfrydol nad oedd lefelau'r buddsoddiad i ddatblygu a chynnal y cyfleuster ymhellach yn ariannol ymarferol. Felly, nid oedd Menter Gymdeithasol Llangefni wedi ceisio gwneud cais am estyniad i'r brydles na Throsglwyddiad o Asedau Cymunedol gan y Cyngor Sir. [Yma](#)

3.0 Y Sefyllfa Bresennol

- 3.1 Ar ôl i'r brydles ddod i ben ar 1 Hydref 2018, mae'r Cyngor Sir wedi cymryd camau i ddiogelu'r safle a hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith adfer i'r tir er mwyn negyddu difrod iddo. Mae rhywfaint o fyrnu a phori wedi bod ar y tir hefyd.
- 3.2 Cynhaliwyd proses dendro agored i reoli a gweithredu'r llain ymarfer hefyd, gyda Matthew Wharton, hyfforddwr a gweithiwr proffesiynol PGA, yn llwyddo i sicrhau cytundeb gyda'r Cyngor Sir. Ailagorodd y llain ymarfer y buddsoddiwyd ynddi ym mis Ionawr 2019 ac mae'n hynod lwyddiannus.
- 3.3 Yn unol â'r rheoliadau perthnasol, mae'r Cyngor Sir nawr yn dymuno ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned ehangach ar effaith bosibl y caiff unrhyw fwiad i werthu Cwrs Golff Llangefni ar y gymuned.

4.0 Bwriad y Cyngor Sir i Werthu

- 4.1 Y bwriad a gyflwynwyd yw bod yr amlinelliad coch (gweler Atodiad A) sy'n mesur rhyw 16.84 hectar neu 41.6 erw i'w hysbysebu ar werth ar y farchnad agored i sicrhau'r gwerth gorau yn unol ag a123 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Byddai hyn yn cynnwys tŷ annedd y cyn-dirmon (Y Ffridd) a gaiff ei farchnata'n agored fel tyddyn amaethyddol. Y disgwyl yw y byddai'r gwaith marchnata hwn yn cymryd rhyw ddeuddeg wythnos.
- 4.2 Câi'r holl fannau eraill eu cadw:
1. Tywyll – Caiff y lawntiau ymarfer golff, y llain ymarfer a'r ardal gaeedig eu cadw dan brydles i drydydd parti fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
 2. Tywyll – Caiff y rhandiroedd ar Lôn Clai eu cadw dan brydles i drydydd parti fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
 3. Tywyll - Caiff tir ger Lôn Clai ei gadw dan brydles i drydydd parti fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
 4. Amlinelliad glas - Caiff Oriol Môn a'r maes parcio cysylltiedig eu cadw.
- 4.3 Dylid nodi hefyd, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2018, y byddir yn "neilltuo'r derbyniad cyfalaf o unrhyw werthiant posib i gefnogi moderneiddio a gwella Plas Arthur er mwyn bodloni safonau cyfredol". Y gobaith yw y bydd hyn yn lliniaru colli'r cwrs golff ac yn gwella'r ddarpariaeth hamdden yn sylweddol mewn man arall pe bai'r Cyngor Sir yn penderfynu bwrw ymlaen â chael gwared â Chwrs Golff Llangefni ar ddiwedd y broses ymgynghori. Bydd blaenoriaethu cyfleusterau aml-chwaraeon sy'n darparu ar gyfer defnyddiwr mwy amrywiol yn ei gwneud hi'n haws i deuluoedd chwarae yn yr un lle, yn sicrhau defnydd trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig y gwerth gorau am arian.

4.4 Mae angen i'r Cyngor Sir sicrhau bod ei gyfleusterau adeiledig yn addas at y diben, yn cael eu diogelu ar gyfer y dyfodol a'u bod yn cael eu gweithredu ar sail fasnachol gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i bawb yn y gymuned. Bydd hyn yn sicrhau y caiff y cyfleuster ei ddefnyddio'n gyson ac y bydd iechyd a lles y cyhoedd yn gwella yn ogystal â'r Gymraeg yn cryfhau.

5.0 Y Gêm

5.1 Mae'r rhwystrau i ddechrau chwarae golff yn adnabyddus. Mae wedi dioddef o fod â phroblem delwedd ac mae hi'n gêm ddrud o'i chymharu â chwaraeon amgen eraill. Mae'n gostus ac mae union natur y gêm yn golygu nad yw hyn yn debygol o newid. Bydd y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw darnau enfawr o dir a chael offer cyfredol bob amser yn uchel.

5.2 Yn ôl KPMG yn eu hadroddiad cynhwysfawr, "Golf Participation Report for Europe 2018" ([Dolen i'r Adroddiad](#)) roedd gan Gymru

1. 44,551 o chwaraewyr golff cofrestredig yn 2017
2. Mae hyn i lawr 871 neu 1.92% o 45,422 yn 2016
3. 145 o gyrsiau golff yn 2017
4. Mae hyn i lawr 3% o 149 yn 2016
5. Roedd hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 307 o chwaraewyr golff cofrestredig fesul cwrs golff

5.3 Ym mis Hydref 2018, wedi cau'r cwrs golff, ymgysylltodd y Cyngor Sir â chwech o'r saith cwrs golff ar yr Ynys - Baron Hill, Porth Llechog, Henllys Hall, Caergybi, Cwrs Golff Ynys Môn, Rhosneigr a Storws Wen. Nid oedd modd dod o hyd i unrhyw fanylion cyswllt ar gyfer y cyfleuster "talw a chwarae" yn Nhrearddur.

5.4 Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ac anfonwyd e-byst dilynol a ysgogodd dri o'r chwech i ymateb. Mae eu hymatebion cyfrinachol i'n cwestiynau - ymatebion sydd heb eu golygu, i'w gweld isod.

Ymateb 1	
1. Yn eich barn chi, pa effaith fydd cau Llangefni yn ei chael ar golff?	Gallai hyn gael effaith ar golff o ran y di-waith neu'r dechreuwyr.
2. Oes digon neu, hyd yn oed, ormod o gyrsiau golff yn Ynys Môn?	Oes. Rwy'n credu bod digon o gyrsiau ar yr Ynys.
3. A yw'n gadarnhaol bod gweithiwr proffesiynol PGA wedi llwyddo i sicrhau prydles y llain ymarfer?	Yn bendant. O ran datblygu'r gêm a chyflwyno dechreuwyr i'r gêm.
4. Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i weithio ar y cyd?	Ydym
5. Dros y pum mlynedd diwethaf, ydyw niferoedd eich chwaraewyr wedi gostwng, wedi aros yn eu hunfan neu wedi cynyddu?	Yn anffodus, mae'r niferoedd wedi gostwng.
6. Ydych chi'n cynnig consesiynau neu fargeinion i ddenu aelodau newydd?	Ydym
7. Ydych chi'n rhagweithiol ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol i farchnata a chodi ymwybyddiaeth o'ch cwrs golff? Os felly, rhannwch eich manylion Facebook, Twitter, Instagram.	Yn bendant

8. Sut ydych chi'n gweld dyfodol golff yn Ynys Môn a thu hwnt yn gyffredinol	Amseroedd anodd o'n blaenau ond gobeithio bod yna Tiger Woods arall ar y gorwel?
--	--

Ymateb 2	
1. Yn eich barn chi, pa effaith fydd cau Llangefni yn ei chael ar golff?	Bydd hyn yn cael effaith enfawr ar Golff yn gyffredinol ar Ynys Môn.
2. Oes digon neu, hyd yn oed, ormod o gyrsiau golff yn Ynys Môn?	Byddwn yn awgrymu bod gormod o gyrsiau golff 18 twll aelodau traddodiadol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oes clybiau bwydo. Mewn gwirionedd nid oes unrhyw gyrsiau golff bwydo ar wahân i Llangefni. Mae Llangefni yn ganolog i'r ynys ac yn hanesyddol mae wedi cynhyrchu cyfran fawr o chwaraewyr golff sydd wedyn yn ymuno â chlybiau golff aelodau
3. A yw'n gadarnhaol bod gweithiwr proffesiynol PGA wedi llwyddo i sicrhau prydles y llain ymarfer?	Ydyw. Mae aelodau ym Mhorth Llechog ynghyd â Chlwb Golff Ynys Môn, Clwb Golff Caergybi, Chlwb Golff Barron Hill a Henlllys i gyd yn defnyddio'r cyfleusterau hyn fel yr unig lain ymarfer sydd ar gael yn Ynys Môn
4. Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i weithio ar y cyd?	Mae pawb ohonom ar fai a dylid fod wedi datblygu partneriaethau flynyddoedd yn ôl. Roedd golff yn araf yn ymateb i farchnad newidiol a gofynion defnyddwyr ond rydym bellach yn ymwybodol ohoni ac yn ymateb iddi. Felly oes, mae cyfleoedd i ddatblygu partneriaethau.
5. Dros y pum mlynedd diwethaf, ydyw niferoedd eich chwaraewyr wedi gostwng, wedi aros yn eu hunfan neu wedi cynyddu?	Mae'r nifer sy'n chwarae'n parhau i fod yn sefydlog, ond rydym yn weithgar wrth recriwtio golffwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd.
6. Ydych chi'n cynnig consesiynau neu fargeinion i ddenu aelodau newydd?	Ydym. Rydym yn cynnig aelodaeth ratach i chwaraewyr golff newydd ac i'r rhai sy'n dychwelyd
7. Ydych chi'n rhagweithiol ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol i farchnata a chodi ymwybyddiaeth o'ch cwrs golff? Os felly, rhannwch eich manylion Facebook, Twitter, Instagram.	Ydym
8. Sut ydych chi'n gweld dyfodol golff yn Ynys Môn a thu hwnt yn gyffredinol	Mae Clybiau Golff wedi bod yn araf yn ymateb i alwadau newidiol dros y blynyddoedd ac, o ganlyniad, mae golff wedi bod mewn trafferth. Ar y cyd â Golff Cymru a Thwristiaeth Gogledd Cymru mae clybiau wedi deffro ac yn deall bod rhaid i ni fod yn fwy gweithgar a chroesawgar. Rydym ni yn X yn gymharol gadarnhaol ac yn buddsoddi llawer o amser i recriwtio golffwyr iau, merched a dynion ond bydd yn her

	<p>enfawr oherwydd aelodau sy'n heneiddio.</p> <p>Yn genedlaethol, mae Golff ar gynnydd, yn enwedig ymhlith plant iau a merched a daw hyn o ganlyniad i lawer o waith caled a newid agweddau.</p>
--	---

Ymateb 3	
1. Yn eich barn chi, pa effaith fydd cau Llangefni yn ei chael ar golff?	Credwn y bydd y cau yn cael effaith ar golff ar yr Ynys gan fod llawer o chwaraewyr golf wedi dechrau golffio yn Llangefni. Roedd yn cynnig ffordd fforddiadwy i ddechreuwr gael eu blas cyntaf ar golff
2. Oes digon, neu, hyd yn oed, ormod o gyrsiau golff yn Ynys Môn?	Gyda chwe chlwb ar yr ynys yn cynnig cyfle i chwarae cyrsiau 9/18 twll, credwn fod digon o glybiau ar yr Ynys. Mae agor Storws Wen a Henllys Hall yn y 25 mlynedd diwethaf wedi rhoi pwysau ariannol ar y clybiau sydd wedi ennill eu plwyf ar yr Ynys; ond, o bosibl, wedi gwella profiad chwaraewyr golff a phrofiad ymwelwyr. Gyda chymorth y Cyngor, gallai Ynys Môn hyrwyddo ei hun fel cyrchfan golffio.
3. A yw'n gadarnhaol bod gweithiwr proffesiynol PGA wedi llwyddo i sicrhau prydles y llain ymarfer?	Ydyw, mae'n gadarnhaol bod gweithiwr proffesiynol PGA wedi llwyddo i sicrhau prydles y llain ymarfer.
4. Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i weithio ar y cyd?	Oes. Mae cyfleoedd yn bendant i weithio ar y cyd â Matthew Wharton a'r cyngor i hyrwyddo'r Ynys fel cyrchfan i'r ymwelydd sy'n golffio. Byddwn yn cefnogi ymdrechion Matthew i hyrwyddo'r gêm ar yr Ynys;
5. Dros y pum mlynedd diwethaf, ydyw niferoedd eich chwaraewyr wedi gostwng, wedi aros yn eu hunfan neu wedi cynyddu?	Mae ein niferoedd sy'n chwarae wedi bod yn sefydlog, yn bennaf oherwydd mai cwrs 9 twll ydym.
6. Ydych chi'n cynnig consesiynau neu fargeinion i ddenu aelodau newydd?	Ydym. Rydym yn marchnata'r clwb yn rhagweithiol. Mae pob clwb yn cynnig bargeinion o ryw fath sy'n cynhyrchu aelodau newydd.
7. Ydych chi'n rhagweithiol ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol i farchnata a chodi ymwybyddiaeth o'ch cwrs golff? Os felly, rhannwch eich manylion Facebook, Twitter, Instagram.	Ydym. Wedi buddsoddi mewn gwefan newydd y llynedd. Mae gennym dudalen Instagram a thudalen Facebook;
8. Sut ydych chi'n gweld dyfodol golff yn Ynys Môn a thu hwnt yn gyffredinol	Mae golff yn dirywio ar hyn o bryd. Mae llawer o bobl yn amharod i dreulio pedair / pum awr ar gwrsgolff. Mae hyn wedi helpu'n clwb 9 twll i frwydro yn erbyn y dirywiad a welwyd mewn llawer o glybiau eraill yn y Deyrnas Unedig.

6.0 Ymateb CSYM a Dehongli'r Adborth

- 6.1 Nid oes unrhyw ofyn cyfreithiol ar i'r Cyngor Sir ddarparu gwasanaeth golffio, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Ar adeg lle ceir llai o gymorth ariannol, mae angen i'r Cyngor Sir adolygu ei wasanaethau dewisol a cheisio lleihau ei wariant ar wasanaethau nad ydynt yn hanfodol. Mae hamdden yn parhau i fod yn wasanaeth dewisol.
- 6.2 Mae yna nifer o heriau y mae'r Swyddogaeth Hamdden fel Gwasanaeth dewisol (anstatudol) wedi'u hwynebu ac yn ymdrin â nhw o ganlyniad i'r rhagolygon ariannol cyfredol.
1. Cyrraedd targedau arbed effeithlonrwydd blynyddol;
 2. Gostyngiad sylweddol yn y gyllideb dros y blynyddoedd rhwng hynny (60% +);
 3. Yr angen i gynnal gwaith darparu cyfleusterau a gweithgareddau;
 4. Canfyddiadau negyddol a delwedd / enw da gwael;
 5. Ansawdd gwael y cyfleusterau (oherwydd oedran a dim buddsoddi);
 6. Y costau a'r gorbenion sy'n gysylltiedig ag adeiladau sy'n heneiddio a chyfleusterau ochr wlyb;
 7. Disgwyliadau cynyddol uwch defnyddwyr;
 8. Yr angen i sefydlu agwedd a diwylliant newydd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac a gânt eu gyrru gan fasnach;
 9. Dim capasiti a gallu i ysgogi newid; a
 10. Gwahanol ddisgwyliadau ac uchelgeisiau gwleidyddol.
- 6.3 Mae'r Cyngor Sir hefyd o'r farn na ddylai fod yn cystadlu â'r sector preifat wrth ddarparu golff, ac y gellir dadlau bod gorddarpariaeth gan fod gan yr Ynys gyfanswm o saith cyfleuster golff. Mae saith cwrs yn un cwrs golff i bob 9,997 o boblogaeth Ynys Môn, dim ond yr Alban a Gwlad yr Iâ sydd â ffigurau tebyg (KPMG, 2018). Yn Atodiad D, dangosir lle mae'r cyrsiau golff yn Ynys Môn a'u bod yn ymestyn yn ddaearyddol dros ddigon o dir. Mae pellter pob un o'r cyrsiau eraill o Langefni fel a ganlyn:

Cwrs Golff	Pellter mewn milliroedd
Henllys Hall, Biwmares	11.8
Baron Hill, Biwmares	11.7
Clwb Golff Ynys Môn, Rhosneigr	11.1
Clwb Golff Trearddur	16.8
Clwb Golff Caergybi	15.8
Clwb Golff Porth Llechog, Amlwch	13.8
Storws Wen, Brynteg	5.6

- 6.4 Yn anffodus, nid ymatebodd tri o'r chwech felly nid yw'n bosibl cael darlun llawn o gyflwr y gêm ar Ynys Môn. Fodd bynnag, mae'r ymatebion i'r Cyngor Sir yn nodi fod cyrsiau golff yn ei chael hi'n anodd cadw aelodau newydd a'i bod yn anodd oherwydd bod aelodau cyfredol yn heneiddio ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu hynny. Nid yw hon yn sefyllfa tymor hir gynaliadwy wrth symud ymlaen.
- 6.5 Dylid nodi hefyd, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2018, y bydd y derbyniad cyfalaf o werthu tir y cwrs golff yn cael ei glustnodi i liniaru'r golled a gwella'r ddarpariaeth hamdden mewn mannau eraill, sef Plas Arthur yn Llangefni. Bydd blaenoriaethu cyfleusterau aml-chwaraeon yn ei gwneud hi'n haws i deuluoedd chwarae yn yr un lle, yn sicrhau defnydd trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig y gwerth gorau am arian.

- 6.6 Mae effaith cyfleusterau chwaraeon y gellir eu defnyddio ar gyfer un gamp yn unig yn debygol o fod yn llai nag un a all ddarparu ar gyfer ystod ehangach o bobl sydd eisiau chwarae gwahanol chwaraeon. Mae angen i seilwaith chwaraeon newydd ddarparu ar gyfer y nifer fwyaf posibl o chwaraeon fel bod gan bobl y dewis ehangaf ohonynt.

7.0 Effaith y Bwriad i Werthu ar Bolisiau Strategol

- 7.1 Yn unol â Rheoliad 6, Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir asesu'r effaith y byddai'r bwriad i werthu'n ei chael ar strategaethau, cynlluniau ac asesiadau perthnasol ar gyfer yr ardal leol dan sylw a sut y byddai'r gwerthiant yn cael effaith ar y canlyniadau a nodir yn y cynlluniau a'r strategaethau hyn. Y cynlluniau perthnasol yw:

- Y cynllun datblygu lleol sy'n ofynnol dan adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
- Yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae sy'n ofynnol dan adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Y strategaeth gymunedol sy'n ofynnol dan adran 39 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (wedi'i disodli gan y cynllun llesiant lleol)
- Y strategaeth iechyd a lles sy'n ofynnol dan adran 40 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
- Y fath strategaethau, cynlluniau ac asesiadau eraill y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hystyried yn briodol. Yn yr achos hwn, rydym hefyd wedi ystyried yr effaith yn erbyn Strategaeth Hamdden gyfredol y Cyngor Sir.

- 7.2 Mae'r uchod i gyd wedi'u hystyried a'u hasesu yn erbyn y penderfyniad arfaethedig i werthu ac amlinellir yn y tabl isod naill ai Effaith Gadarnhaol neu Effaith Negyddol. Gweler y dogfennau ategol sy'n cyd-fynd â'r Adroddiad hwn i gael manylion pellach am yr asesiadau o'r effaith llawn.

Maes Pwnc	Cadarnhaol/ Niwtral	Negyddol
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Asesiad o Fannau Agored	✓	
Asesiad o Ddichonolrwydd Cyfleoedd Chwarae	✓	
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	✓	
Asesiad o Lesiant Lleol	✓	
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	✓	
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	✓	
Strategaeth Hamdden y Cyngor Sir	✓	

- 7.3 Ar ôl cynnal yr asesiadau o effaith yn erbyn y meysydd uchod, ein casgliad, fel Cyngor Sir, yw y bydd rhai effeithiau negyddol ond bydd y rhain yn fach iawn a bydd mwyafrif yr effeithiau'n niwtral neu'n gadarnhaol. Yr effeithiau negyddol a nodwyd yw:

- Ein bod yn cydnabod bod darparu golff yn Llangefni yn rhatach nag mewn cyrsiau eraill ar £4 y rownd. Er cymhariaeth, mae Bae Trearddur oddeutu £5, Storws Wen £10 a Baron Hill £13. Fodd bynnag, i liniaru'r sefyllfa, mae'r llain ymarfer wedi aros ar agor i'r gymuned golffio'i defnyddio.
- Cydnabod y gallai'r cau gael effaith ar y rhai sydd â mynediad cyfyngedig i gludiant (yn enwedig oherwydd byw'n lleol / pellter cerdded). Bydd teithio i Drearddur yn llai o broblem gan fod digon o lwybrau bysiau yn mynd yno. Bydd cyrraedd darpariaeth

amgen yn Storws Wen neu Baron Hill yn heriol. I liniaru'r sefyllfa, mae'r llain ymarfer wedi aros ar agor i'r gymuned golffio'i defnyddio.

- 7.4 Mewn perthynas â'r ddwy effaith negyddol uchod, nid yw'n bosibl i'r Cyngor Sir liniaru'r effeithiau hyn yn llawn. Mae cynlluniau teithio rhad ar gael ar Ynys Môn ac mae mwy o wybodaeth am y cynllun hwn ar gael ar ein wefan ar y cyfeiriad hwn: <https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Parcio-lonydd-a-theithio/Trafnidiaeth-gyhoeddus/Tocynnau-teithio.aspx>

8.0 Y Bwriad i Ymgynghori / Ymgysylltu

- 8.1 Mae yna nifer o gamau y mae'n rhaid i Awdurdod Lleol eu gwneud cyn gwneud penderfyniad i gael gwared â chae chwarae, neu unrhyw ran o gae chwarae. Gellir gweld y rhain trwy ddilyn y ddolen i Reoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymuned â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 [Yma](#). Mae ymgysylltu'n ystyrlon â'r gymuned leol a grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb wrth wraidd y Rheoliadau.
- 8.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru "feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau ... ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd..."
- 8.3 I'r perwyl hwnnw, bydd y Cyngor Sir yn sicrhau ei fod, trwy gydol y broses, yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau cymwys ac yn gwahodd sylwadau gan unrhyw bersonau a / neu grwpiau â diddordeb.

9.0 Casgliadau

- 9.1 Ers 2007-2014 pan oedd y cwrs golff ym mherchnogaeth y Cyngor Sir, mae wedi bod yn colli £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Gan fod y golled hon yn cael cymhorthdal, roedd yn anghynladwy.
- 9.2 Roedd Menter Gymdeithasol Llangefni yn rhedeg y cyfleuster ar ran y Cyngor Sir rhwng 2015 a 2018. Fodd bynnag, eu casgliad oedd ei fod yn ormod o faich ariannol ac ni wnaethent geisio trosglwyddo asedau na chael prydles hwy. Trosglwyddwyd y cyfleuster yn ôl i'r Cyngor Sir ar y 1af o Hydref 2018.
- 9.3 Mae'r Cyngor Sir wedi llwyddo i sicrhau dyfodol uniongyrchol y llain ymarfer a'r ardal ymarfer ac mae Gweithiwr Proffesiynol PGA bellach yn denant sy'n rheoli ac yn gweithredu'r llain ymarfer. Mae'r agwedd hon wedi'i chroesawu gan nifer o ddefnyddwyr y llain ymarfer.
- 9.4 Os bydd y Cyngor Sir yn penderfynu bwrw ymlaen â'r penderfyniad i werthu ar ôl ystyried sylwadau a wnaed yn unol â'r broses hon, yna bydd hen dir y cwrs golff (tua 41.6 erw) ynghyd â chyn-dŷ ceidwad y grŵn (Y Ffridd) yn cael ei hysbysebu ar werth ar y farchnad agored fel manddaliad. Bydd unrhyw arian cyfalaf a sicrheir yn cael ei neilltuo a'i fuddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden presennol. Mae'r Pwyllgor Gwaith eisoes wedi cymeradwyo'r penderfyniad mewn egwyddor i ddefnyddio elw'r gwerthu at y diben hwn (gan ddibynnu ar ganlyniad y broses ymgynghori a'r cyfnodau amser yn dod i ben yn unol â'r Rheoliadau)
- 9.5 Datblygu cyfleusterau aml-chwaraeon yw'r flaenoriaeth i'r Cyngor Sir gan fod hyn yn sicrhau defnydd trwy gydol y flwyddyn, yn cynnig y gwerth gorau am arian a gall helpu i wella iechyd a lles holl aelodau'n cymunedau trwy gynnig sawl dewis. Mae hyn hefyd

yn gyson ag amcanion y Cyngor Sir a nodir yn ei Gynllun Llesiant Lleol a'n Strategaeth Hamdden.

O ganlyniad i'r uchod, mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori ar:

- 1. Gwerthu tir Cwrs Golff Llangefni a thŷ Y Ffridd ar y farchnad agored i greu manddaliad newydd.**
- 2. Neilltuo'r derbyniad cyfalaf a'i ailfuddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden i wella a chyfoethogi'r ystod o weithgareddau y maent yn eu cynnig.**
- 3. Y llain ymarfer, yr ardaloedd ymarfer a'r siop yn aros fel cyfleuster golff ac ar agor i'r cyhoedd barhau i'w defnyddio.**
- 4. Rydym wedi cwblhau'r asesiad effaith ar y Cydraddoldebau a'r Gymraeg. Yn eich barn chi, oes unrhyw beth wedi ei fethu?**

Croesawn eich barn a'ch sylwadau ar y bwriadau hyn.

Cysylltwch â Tudur H. Jones ar tudurjones@ynysmon.gov.uk neu ffonio 01248 752 435

Mae modd cael y manylion llawn a'r deunydd ymgynghori yn y lleoliadau a ganlyn:

- Canolfan Busnes Môn, Llangefni, , LL77 7XA

Dogfennau Ategol –

Atodiad A - Ffin y Safle a Chynllun Lleoliad

Atodiad B - Map Lleoliad Darpariaeth Golff Ynys Môn

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o Effaith ar Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Asesiad o'r Effaith ar Fannau Agored
- Asesiad o Effaith ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Asesiad o Effaith ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Datblygu Chwaraeon
- Asesiad o Effaith ar y Strategaeth Hamdden